# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-10-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 21 Mawrth 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1 : Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory, Christine Gwyther

## Eitem 2 : Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-09-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2006 ac 14 Mawrth 2006.

## Eitem 3 : Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4 : Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1252 – Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.2 Cytunwyd y byddai'n ddoeth cynnwys yn yr adroddiad enwau'r cyrff hynny y caiff swyddogaethau Proffesiynau Iechyd Cymru eu trosglwyddo iddynt, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg.

4.3 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol, gyda'r ychwanegiad uchod.

4.4 O ran yr Offerynnau Statudol a ganlyn, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1253 – Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006

### LC1254 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2006

**LC1255 – Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2006**

**LC1256 – Gorchymyn Cyngor Iechyd Cymuned (Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned Llanelli/Dinefwr a Chaerfyrddin/Dinefwr) 2006**

**LC1257 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**LC1258 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceieisadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2006**

## Eitem 5 : Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007

5.1 Craffu ar is-ddeddfwriaeth: y sefyllfa yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Cyflwynodd Mr Griffiths ei adroddiadau i'r Pwyllgor.

5.2 Wrth drafod, dywedwyd bod y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol wrthi'n cael ei drafod yn San Steffan. Diben y Mesur yw lleihau biwrocratiaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Archwilydd y Rheolau Statudol yn cyflwyno'i adroddiadau yn uniongyrchol i Bwyllgorau priodol y Cynulliad (pan fo'r Cynulliad yn cyfarfod), sef un o'r opsiynau y byddai modd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fabwysiadu, yn dibynnu ar swmp y gwaith y byddai'r Pwyllgorau Pwnc perthnasol yn ymgymryd ag ef. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried deddfwriaeth sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd. Mynegwyd pryderon nad oes gan Bwyllgorau Pwnc ddigon o amser o hyd i graffu ar bob darn o ddeddfwriaeth o'r fath, er ei bod yn swyddogaeth bwysig.

5.3 Trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, Mrs Jenny Randerson AC

Cyflwynodd Mrs Randerson ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Roedd ei hadroddiad yn canolbwyntio ar brofiad Canada o wneud deddfwriaeth ddwyieithog. Ar ôl ymweld â Chanada, daeth Mrs Randerson i'r casgliad na fyddai'r broses o gyfieithu Offerynnau Statudol yn ddigonol yng Nghymru ar ôl 2007 pan fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio Mesurau, er bod y broses yn ddigonol ar hyn o bryd. Roedd yn sicr mai cyd-ddrafftio fyddai'r ffordd ymlaen. Er mwyn cyd-ddrafftio, byddai angen cynyddu nifer y cyfreithwyr dwyieithog sy'n gweithio i'r Llywodraeth ac i'r Cynulliad. I oresgyn yr anawsterau o ran hyfforddi a recriwtio arbenigwyr o'r fath, eglurodd Mrs Randerson ei bod yn bwysig meithrin perthynas â Phrifysgolion a datblygu cyrsiau perthnasol o fewn y Gwasanaeth Sifil. Pwysleisiodd fod yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn yn awr oherwydd byddai lefel y ddeddfwriaeth yn cynyddu wrth i'r ddeddfwrfa fagu hyder. Tanlinellodd Mrs Randerson bwysigrwydd cadw o leiaf un prif gopi papur o bob dogfen oherwydd ei bod yn hawdd newid dogfennau electronig ond ei bod yn anodd canfod tarddiad

newidiadau o'r fath.

5.4 Wrth drafod, gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

Nid hwn oedd y tro cyntaf i'r Pwyllgor Deddfau drafod cyd-ddrafftio dwyieithog. Yn wir, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol adroddiad ar gyd-ddrafftio i'r Pwyllgor a daeth gerbron y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001 i drafod y mater. Bu'r Aelodau ar ymweliad â Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol hefyd i gasglu ffeithiau ym mis Rhagfyr 2001 ac eto ym mis Gorffennaf 2002. Cytunwyd y dylid dosbarthu adroddiad y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor unwaith eto gan fod aelodaeth y Pwyllgor wedi newid. Gallai'r wybodaeth fod o ddefnydd i'r Aelodau presennol. Gweithredu: Clerc

Gofynnwyd hefyd am wybodaeth am gyrsiau sydd ar gael i ddatblygu arbenigedd proffesiynol o ran paratoi deddfwriaeth ddwyieithog. Gweithredu: Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc

Cododd cwestiynau eraill am y camau a gymerwyd ers 2001 i sicrhau bod staff ar gael sy'n arbenigo mewn drafftio dwyieithog. Byddai modd gwahodd cynrychiolydd o Adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y camau a gymerwyd i ddatblygu deddfwriaeth ddwyieithog a'r rhagolygon ar ôl 2007. Gweithredu: Clerc/Cynghorwyr Cyfreithiol.

## Camau i'w cymryd

5.4 Gofynnwyd i'r Clerc ailddosbarthu adroddiad y Cwnsler Cyffredinol ar gyd-ddrafftio deddfwriaeth ddwyieithog. Gweithredu: Clerc;

gofynnwyd am wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael i ddatblygu arbenigedd proffesiynol o ran paratoi deddfwriaeth ddwyieithog. Gweithredu: Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc;

cytunwyd i wahodd cynrychiolydd o Adran Gwasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y camau a gymerwyd i ddatblygu deddfwriaeth ddwyieithog a'r rhagolygon ar ôl 2007. Gweithredu: Clerc/Cynghorwyr Cyfreithiol.

## Eitem 6 : Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai Mr David Lambert o Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd, yn dod i'r cyfarfod yr wythnos nesaf.

6.2 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Mawrth 2006.